# Memorandwm Esboniadol: y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru)

## Teitl arfaethedig y Bil

1. Teitl arfaethedig y Bil yw y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) ('y Bil').

## Amcan/amcanion polisi arfaethedig y Bil[1]

2. Diben y Bil yw sefydlu dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod pob person ifanc sy'n cael addysg a gynhelir yn cael y cyfle i brofi Addysg Awyr Agored breswyl, am o leiaf wythnos, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol. Bydd y Bil hefyd yn sefydlu rhwymedigaeth statudol i drefnu bod cyllid yn cael ei ddyrannu i ddarparwyr addysg a gynhelir i'w galluogi i wneud hyn.

3. Mae manteision Addysg Awyr Agored i blant a phobl ifanc wedi'u profi ers tro o ran eu hiechyd a'u llesiant corfforol a meddyliol, eu dysgu personol a chymdeithasol, eu datblygiad gwybyddol a deall eu lle yn y byd. Cafodd hyn ei gadarnhau yn ddiweddar mewn gwaith ymchwil gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd drwy Hwb[2].

4. Mae'r Bil yn ceisio datblygu dull cydgysylltiedig a gyllidir er mwyn darparu profiad Addysg Awyr Agored preswyl i bob plentyn sy'n cael addysg a gynhelir yng Nghymru, ni waeth beth fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol, ei anghenion dysgu ychwanegol, ei gefndir diwylliannol neu ei leoliad daearyddol. Bydd hyn yn newid Addysg Awyr Agored o fod yn weithgaredd cyfoethogi i fod yn elfen o'r cwricwlwm sy'n rhoi hawl, gan ddileu'r ansicrwydd o ran cyllid awdurdodau lleol a sicrhau tegwch i blant a phobl ifanc Cymru.

[1] Fel sy'n ofynnol yn ôl Rheol Sefydlog 26.91B, rwyf o'r farn bod yr amcan polisi hwn yn gyson â'r hyn a nodwyd yn y wybodaeth a gyflwynwyd gennyf cyn y balot. O gymharu â'r wybodaeth a gyflwynwyd cyn y balot, mae'r wybodaeth ychwanegol o dan 'Amcan/amcanion polisi y Bil' wedi ei darparu er mwyn nodi'n gliriach i'r Aelodau beth yw fy syniadau ynghylch sut y gellir cyflawni'r amcanion polisi hyn.

[2] https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol/astudiaethau-ymchwil-ar-effaith-pandemig-covid-19-ar-system-addysg-cymru/astudiaeth-ymchwil-6

*Addysg Awyr Agored, y Cwricwlwm i Gymru a Pholisi Ehangach Llywodraeth Cymru*

5. Mae Addysg Awyr Agored a'i dull addysgegol sy'n seiliedig ar brofiadau uniongyrchol ynghyd â myfyrio ar yr hyn a ddysgir o brofiadau yn y byd go iawn yn cyd-fynd â phedwar diben Cwricwlwm Cymru, ac yn ategu'r dibenion hynny. Yn benodol, mae hyn yn gweithio i ddatblygu ymdeimlad o *gynefin* (h.y. ymdeimlad o gysylltiad â lle, tir, diwylliant, iaith a hunaniaeth benodol Gymreig), a gyflwynir fel elfen angenrheidiol drwy ganllawiau y Cwricwlwm i Gymru.

6. Mae maes dysgu a phrofiad 'Iechyd a lles' y Cwricwlwm i Gymru (2022)[3] yn cynnwys *Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig*, sy'n nodi pwysigrwydd ymateb i brofiadau, gwneud penderfyniadau a dylanwadau cymdeithasol. Mae'r rhain i gyd yn sylfaenol i addysgeg Addysg Awyr Agored sy'n cael ei wireddu'n llawn drwy brofiad Addysg Awyr Agored preswyl.

7. Mae maes dysgu a phrofiad 'Y Dyniaethau'[4] yn cynnwys *Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig* sy'n nodi pwysigrwydd deall prosesau deinamig y byd naturiol a'r effaith y mae bodau dynol yn ei chael ar y prosesau hyn, a bod dinasyddion hunanymwybodol ateb heriau er mwyn cymryd camau moesegol. At hynny, mae canllawiau'r maes dysgu a phrofiad ynghylch 'Ystyriaethau ar gyfer darparu profiadau dysgu' yn galw'n benodol am 'ystod o gyfleoedd i ddysgu y tu allan...', ac 'ystod o gyfleoedd i ymweld a archwilio...'.[5]

8. Yn ystod pandemig Covid-19 a'r cyfnod o ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo, roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn sôn yn benodol am ddysgu yn yr awyr agored a manteision hynny i iechyd a llesiant. Er mai'r nod ar y pryd oedd lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint, roedd hefyd yn hyrwyddo manteision dysgu yn yr awyr agored, a gaiff eu lluosi yn ystod profiadau Addysg Awyr Agored preswyl.

[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/
[4] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/
[5] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/

9. Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*[6] yn tynnu sylw at degwch a llesiant o dan 'Amcan galluogi 3'. Byddai'r Bil hwn yn ategu'r amcan hwn gan y byddai'n galluogi darparwyr addysg a gynhelir i symud ymlaen â'r *Dull ysgol gyfan o ran* iechyd a llesiant corfforol a meddyliol eu plant a'u pobl ifanc drwy ddarparu mecanwaith statudol, wedi'i gyllido i gyflawni hyn[7].

10. Mae *Dringo'n Uwch, Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru argyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol*[8], a *Dringo'n Uwch:* y Camau Nesaf[9] ill dau yn hyrwyddo manteision gweithgarwch corfforol yn yr awyr agored i iechyd, gan esbonio nodau'r strategaeth sy'n cynnwys:

- Mae angen i Gymru fod yn fwy egnïol yn gorfforol i fod yn genedl iachach.
- Mae angen dinasyddion iach ar Gymru i sicrhau ei ffyniant hirdymor.
- Mae angen i Gymru sicrhau cymaint o synergedd â phosibl rhwng chwaraeon, gweithgarwch corfforol a'r amgylchedd naturiol.

11. Byddai'r Bil hwn yn datblygu'r cysyniadau hyn o iechyd a llesiant gydol oes drwy sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i brofi gweithgareddau Addysg Awyr Agored. Yn ei dro, bydd hyn yn cael effeithiau hirdymor ar iechyd a llesiant y boblogaeth wrth iddynt adael yr ysgol a chael mwy o gyfle i ddod yn oedolion iach (sydd hefyd yn cyd-fynd ag un o bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru). Gallai'r manteision a ddaw yn sgil rhaglenni Addysg Awyr Agored preswyl o ran iechyd meddwl a llesiant leihau'r gofynion ar wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) yn y dyfodol agos a gallai hefyd leihau galwadau ar y GIG ehangach a gwasanaethau gofal iechyd yn y tymor hwy.

[6] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl-diweddariad-hydref-2020.pdf
[7] https://llyw.cymru/dull-ysgol-gyfan-ganllaw-fframwaith-iechyd-meddwl-lles-asesiad-effaith-html
[8] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/climbing-higher.pdf
[9] https://busnes.senedd.cymru/Data/Y%20Cyfarfod%20Llawn%20-%20Yr%20Ail%20Gynulliad/20061018/Agenda/Supporting%20Document%20-%20Climbing%20Higher%20Next%20Steps.pdf

12. Yn 2021, cyhoeddwyd Dysgu Awyr Agored o Ansawdd Rhagorol[10], sy'n canolbwyntio ar Gymru. Yn y ddogfen hon, awgrymir y gellir gwella lefelau llythrennedd a rhifedd drwy ddysgu yn yr awyr agored. Mae hefyd yn awgrymu cysylltiadau clir rhwng dysgu yn yr awyr agored a chyrhaeddiad, gan nodi:

> *'Does dim dwywaith nad ydi profiadau dysgu awyr agored, o'u plethu'n effeithiol i mewn i raglen ddysgu a gynlluniwyd yn dda, yn gallu cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc. Yn hyn o beth, mae Estyn yn cydnabod bod "gan ysgolion sy'n perfformio ar lefel uchel weledigaeth a brwdfrydedd sy'n sicrhau digonedd o gyfleon i'w disgyblion ymarfer eu cyrff a dysgu yn yr awyr agored. Mae'r ysgolion hyn yn credu bod cyfleon o'r fath yn arwain at lefelau uchel o ymrwymiad disgybl, sydd yn ei dro'n arwain at safonau uchel.'*

13. Mae canlyniadau'r Arolwg Bywyd Egnïol diweddaraf[11] yn dangos, er bod plant iau yn fwy egnïol wrth gymryd rhan mewn chwaraeon tîm, wrth i bobl fynd yn hŷn, gallant barhau i fod yn egnïol drwy weithgareddau fel cerdded, beicio, rhedeg a nofio. Er bod yr arolwg hwn yn cyfeirio at ymatebwyr yn Lloegr gan nad oes data cymharol ar gael ar gyfer Cymru, mae'n rhesymol awgrymu na fyddai'r canfyddiadau'n sylweddol wahanol yng Nghymru. Mae gwaith ymchwil diweddar a gyflwynwyd drwy Gymdeithas Ymchwil Addysg Prydain (BERA)[12] yn awgrymu bod cysylltiadau sylweddol rhwng iechyd pobl hŷn, eu lefelau gweithgarwch a'r profiadau a gawsant fel pobl ifanc wrth gymryd rhan mewn Addysg Awyr Agored. Yn ogystal, mae manteision cymryd rhan mewn ymweliadau Addysg Awyr Agored preswyl fel person ifanc i iechyd meddwl wedi eu nodi mewn astudiaeth a gynhaliwyd dros 20 mlynedd yn Japan[13].

14. Ar hyn o bryd, mae plant yn cymryd rhan mewn ymweliadau Addysg Awyr Agored preswyl am amryw resymau. Yn benodol, maent yn rhan bwysig

---

[10] Dysgu Awyr Agored o Ansawdd Rhagorol | Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored (walescouncilforoutdoorlearning.org)
[11] https://sportengland-production-files.s3.eu-west-2.amazonaws.com/s3fs-public/2022-04/Active%20Lives%20Adult%20Survey%20November%2020-21%20Report.pdf?VersionId=nPU_v3jFjwG8o_xnv62FcKOdEiVmRWCb
[12] https://www.bera.ac.uk/blog/ageing-in-nature-outdoor-learning-as-lifelong-learning
[13] Takako Takano (2010) Astudiaeth ôl-weithredol dros 20 mlynedd o effaith teithiau ar gyfranogwyr yn Japan, Journal of Adventure Education and Outdoor Learning, 10:2, 77-94

o brofiad nifer o blant o bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, gan ddatblygu'r trefnusrwydd, yr hunanddibyniaeth a’r gwytnwch sydd eu hangen i ffynnu mewn lleoliad ysgol uwchradd. Maent hefyd yn dysgu am iaith, diwylliant a'r amgylchedd drwy ymweliadau o'r fath, a chydnabyddir bod yr agwedd breswyl yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad y sgiliau hyn.

15. Yn ystod pandemig Covid-19 a’r cyfnod yr oedd busnesau ar gau, dywedodd y Gweinidog Addysg ar y pryd a'r Gweinidog Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd fod "addysg antur yn rhywbeth unigryw ar daith person ifanc drwy’r ysgol" sy’n “darparu cyfleoedd dysgu dan arweiniad arbenigwyr y tu allan i’r dosbarth” a “manteision o ran lles”[14], a hynny mewn canolfannau Addysg Awyr Agored. Gwnaethant gyfeirio hefyd at ba mor werthfawr yw hyn i'r plant a wasanaethir ynghyd â'r cymunedau o ble y daw’r gweithwyr, gan gyhoeddi eu bod wedi sefydlu cronfa adfer benodol i'r sector gwerth £2 miliwn, sy’n dangos pa mor bwysig yw darpariaeth Addysg Awyr Agored breswyl ym marn Llywodraeth Cymru[15].

### *Tegwch mewn addysg*

16. Mae'r Bil hwn yn ceisio sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle i fynd ar ymweliad Addysg Awyr Agored preswyl o leiaf unwaith tra bydd yn yr ysgol, ni waeth ym mha awdurdod lleol y mae’n byw ac ni waeth beth yw incwm neu ddemograffeg ei deulu.

17. Mae manteision ymweliadau Addysg Awyr Agored preswyl yn amlwg iawn, ond eto nid yw’n rhywbeth y mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr hawl iddo. Roedd 474,724 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ym mlwyddyn academaidd 2020/21[16], ond nid oes unrhyw ddata swyddogol wedi'u casglu na’u cyhoeddi sy'n nodi faint o'r

---

[14] Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad Llywodraeth Cymru ar Sefydlu Cronfa ar Gyfer y Sector Addysg Awyr Agored Breswyl (24 Mawrth 2021) | LLYW. CYMRU

[15] https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/datganiad-o-ddiddordeb-cronfar-sector-addysg-awyr-agored-preswyl

[16] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-localauthorityregion-schoolgovernance

disgyblion hynny a gafodd y cyfle pwysig hwn i fynd ar ymweliad yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol[17].

18. Y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (Cymru) (‘y Panel’) yw'r sefydliad proffesiynol ar gyfer cynghorwyr addysg ac ymweliadau addysgol awyr agored. Mae hefyd yn cynrychioli awdurdodau lleol Cymru drwy weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol. Defnyddir system ar-lein i reoli ymweliadau addysgol ar draws awdurdodau lleol Cymru. Yn ôl aelodau’r Panel, mae data amrwd o'r system hon yn awgrymu bod diffyg amlwg yn nifer y disgyblion ledled Cymru sy'n cael cyfle i fynd ar ymweliad Addysg Awyr Agored preswyl.

19. Mae 1,473 o ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae data gan y Panel yn awgrymu y cafwyd 1,072 o ymweliadau Addysg Awyr Agored preswyl ledled Cymru yn 2022. Pe bai pob ymweliad yn cynrychioli un arhosiad Addysg Awyr Agored preswyl gan ysgol y flwyddyn, a bod y data'n dangos bod yr ymweliadau wedi’u lledaenu’n gyfartal ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, yna byddai hyn yn golygu bod tua dwy ran o dair o ysgolion yng Nghymru yn trefnu Addysg Awyr Agored breswyl. Fodd bynnag, nid yw pethau mor syml â hynny ac mae’r data'n fwy cymhleth a chynnil.

20. Drwy weithio gyda’r Panel, a hynny cyn y ddadl i geisio cydsyniad y Senedd i gyflwyno'r Bil hwn, byddaf yn cyhoeddi papur ystadegol, a ddarperir i Aelodau o'r Senedd, gan nodi'r data mwyaf perthnasol sydd ar gael yng Nghymru hyd at fis Medi 2022.

21. Mae tystiolaeth gan y Panel hefyd yn awgrymu amrywiadau sylweddol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru o ran y cyfleoedd y gallant eu cynnig i'w disgyblion. Mae'n peri pryder bod dwbl canran y plant sy'n byw yn yr awdurdodau lleol mwyaf cefnog yn mynd ar ymweliad Addysg Awyr Agored preswyl o'i gymharu â'r disgyblion hynny yn yr awdurdodau lleol sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd, fel y'i diffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

[17] Mae'r ystadegau hyn ar gyfer dysgwyr sy'n mynd i ysgolion a gynhelir gan fod hynny’n cynrychioli’r mwyafrif llethol o ddisgyblion, ond bydd cwmpas y Bil hwn yn cynnwys pob plentyn sy'n cael addysg a gynhelir drwy'r awdurdod lleol, gan gynnwys y rhai mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

22. Mae gwaith diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd yn ategu'r pryderon bod y dull gweithredu yn anghyson ledled Cymru. Mae'n awgrymu na fydd y plant mwyaf agored i niwed yn cymryd rhan oherwydd cyfyngiadau ariannol, gan gadarnhau'r pryderon bod ymweliadau Addysg Awyr Agored preswyl yn cael eu hystyried yn weithgareddau 'cyfoethogi' yn hytrach na'n rhywbeth y mae gan ddisgyblion hawl sylfaenol iddo yn y cwricwlwm.

23. Yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl – Diweddariad mis Hydref 2020*, tynnwyd sylw at y ffaith bod tegwch a llesiant yn egwyddorion sylfaenol o ran addysg yng Nghymru. Byddai'r Bil hwn yn sicrhau bod agweddau ar y ddau yn cael eu cryfhau yng nghenhadaeth ein cenedl, gan sicrhau na fyddent yn agored i'r pwysau sylweddol ar gyllidebau awdurdodau lleol neu gostau dyraniadau i flaenoriaethau polisi eraill sy'n cystadlu.

24. Gwyddom fod rhai cronfeydd fel y Grant Datblygu Disgyblion, sydd â'r bwriad o wella cyrhaeddiad addysgol dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid bwriad y gronfa honno yw rhoi hawl gyffredinol i bob disgybl ysgol, ac nid yw wedi'i chyllido i wneud hynny.

25. Drwy ddiwygio meini prawf arolygu Estyn (i ganolbwyntio mwyfwy ar gyflawniadau goddrychol yn hytrach na chanlyniadau gwrthrychol), efallai y gellir mynd i'r afael â'r pryderon y rhoddwyd pwyslais ar gyrhaeddiad academaidd yn unig, ond nid yw hynny'n debygol o gael effaith sylweddol am nifer o flynyddoedd. Yn y cyfamser, bydd llawer o blant a phobl ifanc yn colli allan ar y profiadau trawsnewidiol a geir drwy brofiadau Addysg Awyr Agored preswyl. Gellir dehongli'r term cyrhaeddiad addysgol yn gyffredinol ond nid yw bob amser yn ystyried y cysylltiad pwysig rhwng dysgu personol a dysgu cymdeithasol a ffyrdd gwrthrychol o fesur cyflawniad academaidd, fel y dangosir mewn gwaith o'r Alban[18]. Dangosodd y gwaith ymchwil hwn effaith gadarnhaol  cymryd rhan mewn Addysg Awyr Agored breswyl ar gyflawniad plant.

[18] Beth Christie, Peter Higgins a Pat McLaughlin (2014) 'Did you enjoy your holiday?' Can residential outdoor learning benefit mainstream schooling?, Journal of Adventure Education and Outdoor Learning, 14:1, 1-23

26. Mae blaenoriaethau ariannol o fewn awdurdodau lleol yn newid wrth i'r pwysau amrywio ar draws gwasanaethau. Byddai'r Bil hwn yn sicrhau darpariaeth deg i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, ni waeth ble maent yn byw, er mwyn sicrhau bod hawl i ymweliad Addysg Awyr Agored preswyl yn rhywbeth cynaliadwy.

*27.* Mae'r ddau gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru, y gwaith ymchwil y cyfeiriwyd ato eisoes a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a gwaith ymchwil annibynnol o bob cwr o'r byd yn cyfeirio at fanteision addysgol Addysg Awyr Agored breswyl, ond mae'n glir nad yw pob plentyn yn gallu manteisio ar y cyfle hwn. Byddai'r Bil yn sicrhau tegwch fel bod 100 y cant o blant yn cael y cyfleoedd hyn.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*

28. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[19] yn tynnu sylw at yr angen am Gymru sy'n iachach, yn decach ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, a byddai'r Bil yn cefnogi'r holl nodau hyn. Byddai'r manteision i iechyd a llesiant a ddaw o fod yn yr awyr agored, yn cyd-fynd ag un o brif egwyddorion y Ddeddf ac yn helpu pobl ifanc i ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol, dod i'w ddeall a gweld ei fod yn werth ei warchod.

*Y Ddarpariaeth Addysg Awyr Agored breswyl gyfredol yng Nghymru*

*29.* Mae'n ofynnol i bob canolfan Addysg Awyr Agored breswyl gael ei thrwyddedu o dan Ddeddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995. Gan ddefnyddio hyn fel maen prawf cymhwyso, mae tua 50 o ganolfannau Addysg Awyr Agored preswyl yng Nghymru. Fodd bynnag, mae llai na phump o'r rhain dan berchnogaeth a rheolaeth awdurdodau lleol Cymru (mae gan un awdurdod dau ganolfan), ac mae'r gweddill wedi eu rhannu rhwng cwmnïau masnachol, cwmnïau budd cymunedol ac elusennau, a chanolfannau sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol o Loegr (mae llawer o'r rhain yn gyfyngedig i blant o Loegr, ond nid pob un ohonynt).

[19] https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

30. Ni fu’n bosibl i awdurdodau lleol flaenoriaethu cyllid ar gyfer darpariaeth Addysg Awyr Agored breswyl bob amser dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae’n debyg bod nifer y cyfleoedd i blant a phobl ifanc Cymru elwa ar Addysg Awyr Agored breswyl wedi gostwng yn sylweddol (efallai yn fwy fyth yn sgil y pandemig, a arweiniodd at gau llawer o ganolfannau bach annibynnol).

31. Nid yw awdurdodau lleol wedi gallu cefnogi Addysg Awyr Agored breswyl am nifer o resymau gan gynnwys penderfyniadau cyllido sy'n gysylltiedig â’r pwysau ar ysgolion i ganolbwyntio ar gyrhaeddiad addysgol, a'r ewyllys gwleidyddol i gefnogi gwasanaeth addysg sy'n cael ei ystyried yn llai proffidiol pan fo’n anos ac yn llai diriaethol mesur 'gwerth am arian'. Nid yw hyn yn cyd-fynd â phedair egwyddor y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n dangos bod angen y Bil er mwyn sicrhau na fydd pwysau a blaenoriaethau awdurdodau lleol yn dileu’r rhan bwysig hon o addysg plant a phobl ifanc.

32. Pan gaewyd y sector Addysg Awyr Agored breswyl yn sgil pandemig Covid-19, roedd modd i’r awdurdodau a oedd yn cynnal canolfannau Addysg Awyr Agored adleoli staff i ysgolion yr awdurdod lleol i ddarparu addysg awyr agored, gweithgarwch corfforol a seibiant o’r amserlen ysgol a oedd wedi’i chwtogi. Yn sgil hyn, gwelwyd gwelliant sylweddol i lesiant staff a phlant yn yr awdurdodau lleol sydd â chanolfannau Addysg Awyr Agored[20], gan dynnu sylw unwaith eto at werth Addysg Awyr Agored.

33. Er gwaethaf yr anawsterau a gafwyd yn sgil cau canolfannau a lleihau ymweliadau Addysg Awyr Agored preswyl yn ystod y pandemig, mae'r amrywiaeth o fathau o ddarpariaethau preswyl yn cynnig cyfleoedd unigryw yng Nghymru i ddarparu Addysg Awyr Agored breswyl mewn ystod o leoliadau gwahanol ac yn unol ag ystod o gyllidebau. Fodd bynnag, mae llawer o'r rhain yn dal yn rhy ddrud i’r rhai mwyaf anghenus yn ein cymdeithas, ac eto dylai plant o bob cefndir allu elwa'n gyfartal ar y profiadau hyn, gan symud y tu hwnt i rywbeth sy’n weithgaredd cyfoethogi i rywbeth y mae ganddynt hawl iddo. Mae'r cwmnïau budd cymunedol ac elusennau yn arbennig yn cynnig arlwy gwerthfawr ochr yn ochr â'r nifer fach o ganolfannau awdurdodau lleol sy'n parhau. Mae yna werth i ganolfannau

[20] https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol/astudiaethau-ymchwil-ar-effaith-pandemig-covid-19-ar-system-addysg-cymru/astudiaeth-ymchwil-6

masnachol hefyd, a gallant ddarparu profiadau Addysg Awyr Agored breswyl o ansawdd uchel.

*Addysg Awyr Agored o Ansawdd Uchel i Gymru – sy'n unigryw ar lwyfan y byd*

34. Pan gyhoeddwyd Dysgu yn yr Awyr Agored o safon uchel yng Nghymru[21] yn 2018, gosododd y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (Cymru) safon o ran ansawdd drwy ddarparu pecyn cymorth, wedi'i gysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru fel y gall penaethiaid ac arweinwyr ysgolion werthuso'r ddarpariaeth Addysg Awyr Agored i sicrhau, pan fyddant yn dewis cynnal ymweliadau addysg awyr agored preswyl, eu bod o'r safon uchaf. Fel y nodwyd eisoes, mae canolfannau Addysg Awyr Agored preswyl yn rhwym o dan Ddeddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995 i sicrhau safon ofynnol o ddiogelwch. Fodd bynnag, mae aelodau'r Panel a'r ddogfen a nodwyd uchod yn darparu haen arall o werthuso ansawdd gan sicrhau bod y rhai sy'n gallu fforddio Addysg Awyr Agored breswyl yn cael profiadau o'r safon uchaf.

35. I ategu hyn, Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd â rhaglen benodol i hyfforddi ar gyfer athrawon Addysg Awyr Agored. Mae'r llwybr penodol hwn a weithredir gan un sefydliad addysg uwch wedi'i achredu gan y Cyngor Gweithlu Addysg ar ran Llywodraeth Cymru. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg wedi cydnabod drwy ei system cwotâu addysg gychwynnol i athrawon bod angen hyfforddi 10 o athrawon Addysg Awyr Agored bob blwyddyn (gan ddyfarnu statws athro cymwys).

36. At hynny, yn ôl gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[22], mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth addysg gychwynnol i athrawon ledled Cymru yn cynnwys rhyw fath o addysgeg Addysg Awyr Agored yn eu cyrsiau addysg gynradd (sy'n arwain at statws athro cymwysedig). Felly, mae gan staff ysgolion ddealltwriaeth dda o werth Addysg Awyr Agored, y gellir ei chyflwyno'n haws ac yn fwy trylwyr drwy gyrsiau Addysg Awyr Agored preswyl.

[21] https://cy.walescouncilforoutdoorlearning.org/hqoldoc
[22] https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol/astudiaethau-ymchwil-ar-effaith-pandemig-covid-19-ar-system-addysg-cymru/astudiaeth-ymchwil-6

37. Darperir ffynhonnell arall o gyllid anuniongyrchol ar gyfer hyfforddiant Addysg Awyr Agored drwy'r Rhwydweithiau Dysgu Awyr Agored rhanbarthol a chyrsiau hyfforddi a gynhelir ar gyfer staff ysgolion gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n ategu ymhellach werth Addysg Awyr Agored fel hawl, ac nid dim ond gweithgaredd cyfoethogi ar gyfer y lleiafrif cefnog.

38. Mae llywodraethau eraill yn Ewrop wedi gosod cynsail ar gyfer darpariaeth Addysg Awyr Agored sydd wedi'i chyllido'n ganolog, a gwelir safon uchel o addysg a hyfforddiant yn Slofenia, sydd â phoblogaeth ac economi debyg i Gymru. Yn ddiweddar, cyflwynwyd cynnig tebyg i Senedd yr Alban, hefyd ar ffurf Bil Aelod preifat[23] (ond roedd y cynnig hwn yn dal i fod yn destun ymgynghoriad ar adeg cyhoeddi'r Memorandwm Esboniadol hwn). Yn bellach i ffwrdd, mae gan Singapore raglen sy'n cael ei rhedeg gan y wladwriaeth o ddarpariaeth Addysg Awyr Agored breswyl fel y gall pob plentyn a pherson ifanc elwa ar y manteision datblygiadol a ddaw yn sgil ymweliadau o'r fath.

39. Mae Cymru yn unigryw ymhlith y cenhedloedd hyn a rhai eraill sydd â rhywfaint o ddarpariaeth neu gyllid gwladol am fod Addysg Awyr Agored yng Nghymru yn cyd-fynd yn nodweddiadol â chwricwlwm sy'n rhoi gwerth amlwg i ddysgu personol a chymdeithasol ochr yn ochr â datblygiad gwybyddol (fel y gwelir ym mhedwar diben y Cwricwlwm i Gymru). Ynghyd â defnyddio Addysg Awyr Agored i addysgu plant am eu lle, yr iaith, diwylliant ein gwlad a'r ymdeimlad o *gynefin*, mae cyfle i Gymru arwain y byd o ran darpariaeth Addysg Awyr Agored.

40. Drwy ei strategaeth genedlaethol ar gyfer ymchwil ac ymholiad addysgol, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido gwaith ymchwil Addysg Awyr Agored mewn ysgolion ac addysg gychwynnol i athrawon (tua £130,000 yn 2021-22) ar gyfer prosiectau cydweithredol[24]. Yn sgil y gwaith ymchwil hwn, argymhellwyd y dylid darparu rhagor o adnoddau a chyfleoedd ar gyfer y math hwn o waith ac, yn benodol, darparu rhagor o gefnogaeth i ddysgu yn yr awyr agored. Byddai'r Bil yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn

[23] https://www.scottishconservatives.com/news/outdoor-education-bill/

[24] Prosiect 14 Rhwydweithiau Tystiolaeth Gydweithredol (2022) ar gyflwr presennol y ddarpariaeth addysg awyr agored yng Nghymru (cyflwynwyd yr adroddiad ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd cyn iddo gael ei gyhoeddi) Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol De Cymru.

dilyn ei hargymhellion ei hun wrth fuddsoddi mewn dysgu awyr agored, drwy ddarpariaeth Addysg Awyr Agored breswyl.

## Manylion am unrhyw gefnogaeth a gafwyd ar gyfer y Bil, gan gynnwys ymgynghoriad

41. Yn dilyn canlyniad y balot cychwynnol i ganiatáu i'r broses fynd yn ei blaen o ran ceisio cydsyniad y Senedd i ddatblygu a chyflwyno Bil, gofynnwyd i sefydliadau Addysg Awyr Agored blaenllaw ledled Cymru fynegi eu cefnogaeth, a chafwyd ymatebion gan y sefydliadau a ganlyn:

- Cymdeithas Penaethiaid y Canolfannau Addysg Awyr Agored
- Y Sefydliad Dysgu yn yr Awyr Agored
- Urdd Gobaith Cymru
- Prifysgol Bangor
- Cynghrair Awyr Agored Cymru
- Cymdeithas Twristiaeth Anturiaeth Cymru
- Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru
- Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro
- Cyngor Dysgu Awyr Agored Cymru
- Partneriaeth Awyr Agored
- Eryri Bywiol
- Pwyllgor Cynghorol y Diwydiant Gweithgareddau Antur
- Mountain Training Cymru
- Canolfan Awyr Agored Arete
- Ymddiriedolaeth Outward Bound
- Y Cyngor Astudiaethau Maes
- Canolfan Addysg Awyr Agored Bryntysilio
- Cyngor Mynydda Prydain
- Y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored (Cymru)
- Y Cerddwyr
- Pwyllgor Cymru
- Canolfannau Dysgu Gweithredol
- Canŵ Cymru
- Adventure Beyond
- Grŵp y Siarter Arforgampau Genedlaethol
- Cyngor Ogofa’r Cambria
- Canolfan Addysg Awyr Agored Rhos y Gwaliau

- Canolfan Fynydda Blue Peris
- Y Gymdeithas Mannau Agored
- Cymdeithas Ogofa Prydain

42. Cynhelir ymarfer ymgynghori manylach i lywio datblygiad y Bil, pe bai'r Senedd yn rhoi ei chydsyniad y caiff y cynnig symud ymlaen i'r cam nesaf, a fydd yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid, ac nid dim ond y rhai sydd eisoes wedi nodi eu cefnogaeth uchod.

**Asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil**

43. O dan Reol Sefydlog 26.91A(iv), mae’n ofynnol darparu asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil. Rwyf wedi nodi'r prif agweddau y bydd angen eu hystyried o ran sut y bydd y Bil hwn yn cael ei ddatblygu, ond y bwriad fyddai lleihau goblygiadau'r Bil o ran cost, gan sicrhau ar yr un pryd ei fod yn cyflawni ei fwriad datganedig ac yn darparu dull cynaliadwy ar gyfer plant a phobl ifanc cenedlaethau’r dyfodol.

44. Caiff ymweliadau Addysg Awyr Agored preswyl eu trefnu gan amlaf ym mlwyddyn 6 er mwyn helpu plant â’r broses o bontio i'r ysgol uwchradd a datblygu cadernid, er nad wyf wedi nodi ar y cam hwn grŵp blwyddyn neu ystod oedran y dylid darparu Addysg Awyr Agored breswyl ar eu cyfer. Cynhelir rhagor o waith ar hyn os bydd y Bil yn cael sêl bendith y Senedd i symud ymlaen i'r cam nesaf.

45. I roi enghraifft, mae StatsCymru yn dangos bod 35,645 o blant ym mlwyddyn 6 ar hyn o bryd[25] gyda’r niferoedd yn gostwng ychydig dros y pum mlynedd nesaf. Er mwyn cyllido'r Bil hwn, byddai angen darparu Addysg Awyr Agored breswyl ar gyfer tua 34,000 o blant y flwyddyn dros y chwe blynedd nesaf.

46. Mae capasiti canolfannau Addysg Awyr Agored preswyl yn amrywio; mae dros 400 o welyau yn rhai o’r canolfannau mwyaf a thua 40 o welyau yn y canolfannau lleiaf. Gan fod amrywiaeth o ganolfannau ar gael, byddai gan ysgolion neu awdurdodau lleol ddewis o hyd i sicrhau bod darparwr yn diwallu anghenion unigol yr ysgol, yn ogystal â chydymffurfio â’r rheolau

[25] Disgyblion yn ôl grŵp blwyddyn a rhyw (Llyw.Cymru)

trwyddedu gweithgareddau antur a bodloni meincnodau Dysgu Awyr Agored o safon uchel i Gymru. Mae yna fathodynnau ansawdd allanol eraill sy'n nodi darpariaeth ragorol, megis Gwobr Aur Cymdeithas y Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored, bathodynnau ansawdd Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth ac Adventuremark a Chynllun Achredu Gweithgareddau Antur Croeso Cymru.

47. Er bod rhai canolfannau yng Nghymru yn cael eu defnyddio gan blant o awdurdodau lleol yn Lloegr yn unig, gall y rhan fwyaf o ddarparwyr ddewis pwy gaiff fynd yno gan eu bod naill ai'n sefydliadau masnachol neu'n gwmnïau elusen/budd cymunedol. Mae’r arwyddion cynnar yn awgrymu bod gan y sector yng Nghymru y capasiti i ymdopi â'r galw ychwanegol a fyddai’n deillio o'r Bil, ond mae hyn yn rhywbeth fydd yn cael ei gadarnhau wrth i'r Bil gael ei ddatblygu.

48. Er mwyn sicrhau bod gan ganolfannau Addysg Awyr Agored preswyl y capasiti i ddarparu ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc y bydd y Bil yn berthnasol iddo, efallai y bydd angen i rai darparwyr sy'n ymdrin â chleientiaid o Loegr ar hyn o bryd newid eu modelau busnes i wasanaethu ysgolion Cymru. Byddai cyllid o dan y Bil yn talu'r costau o ddarparu Addysg Awyr Agored breswyl, gyda'r nod y byddai rhan helaeth o'r cyllid hwn yn cael ei wario mewn canolfannau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, gan dalu staff yng Nghymru, defnyddio cyflenwyr lleol ar gyfer bwyd a gwasanaethau eraill, cadw'r arian yn economi Cymru a darparu swyddi cynaliadwy i gymunedau bach gwledig lle mae canolfannau Addysg Awyr Agored preswyl yn aml wedi'u lleoli. Bydd cysylltiad cryfach â’r Cwricwlwm i Gymru o ran sicrhau bod Addysg Awyr Agored yn hawl yn hytrach na’n weithgaredd cyfoethogi drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu pellach i bobl ifanc wrth iddynt adael addysg sydd am ddilyn gyrfa fel athro yn yr awyr agored. Mae sector cynaliadwy yn gwella'r rhagolygon o ran swyddi i’r rheini sy'n gweithio mewn canolfannau Addysg Awyr Agored preswyl ac yn rhoi sicrwydd swyddi iddynt.

49. Mae aelodaeth/ymlyniad tri aelod craidd Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru (Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru, Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro ac Eryri Bywiol) yn cefnogi gallu'r sector i ddarparu profiadau o'r fath.

50. Mae arosiadau preswyl sy’n para wythnos mewn canolfannau Addysg Awyr Agored preswyl ymhlith y profiadau mwyaf effeithiol, gan eu bod yn caniatáu i'r plant ddysgu gyda'i gilydd a datblygu'r sgiliau cymdeithasol sydd eu hangen arnynt wrth fyw a chydweithio'n agos, gyda digon o amser i fyfyrio ar eu profiadau a dysgu ohonynt. Mae *Dysgu Awyr Agored o Safon Uchel i Gymru* yn awgrymu ffyrdd y gall arweinwyr ysgol a chynghorwyr werthuso ansawdd y ddarpariaeth, a bathodynnau ansawdd fel Gwobr Aur Cymdeithas y Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored, i roi syniad o agweddau preswyl y ganolfan yn ogystal â’r safon y gellir ei disgwyl o ran addysgu a dysgu.

51. Mae'r darparwyr Addysg Awyr Agored preswyl yn cynnig gwahanol fathau o lety sy’n amrywio o ystafelloedd cysgu/byncdai traddodiadol (dim ond nifer fach o ganolfannau fel hyn sy'n dal i fodoli) i ystafelloedd modern ar gyfer grwpiau bach (4-6 o blant â chyfleusterau ensuite) ac ystafelloedd i ddau â chawod ensuite. Mae yna hefyd ddarparwyr sy'n defnyddio podiau gwersylla a chyfleusterau mewn pebyll. Mae gan lawer o ddarparwyr llety preswyl addasiadau arbennig ar gyfer y rhai sydd ag anableddau corfforol penodol, gan gynnwys llety a gweithgareddau sy’n hygyrch i gadeiriau olwyn.

52. Felly, gall cost arhosiad preswyl wythnos o hyd (dydd Llun i ddydd Gwener) amrywio rhwng £290 a £400, er y bydd y rhan fwyaf o ganolfannau yn ceisio codi llai na'r ffigur uchaf os ydynt yn gwmni masnachol sy’n atebol i berchnogion neu’n gyfranddalwyr, a llai eto os ydynt yn sefydliadau elusennol sy’n talu eu costau ac am waith datblygu. Gall y nifer fach o awdurdodau lleol sydd â'u darpariaeth eu hunain reoli eu cyllidebau eu hunain, ond mae llawer yn defnyddio’r ganolfan Addysg Awyr Agored breswyl fel gwasanaeth neu sefydliad masnachol y mae’n rhaid iddo fod yn hunangynhaliol o ran costau rhedeg. Yn y gorffennol, pan roedd llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn rhedeg eu canolfannau Addysg Awyr Agored preswyl eu hunain, weithiau darparwyd cyrsiau neu lefydd â chymhorthdal ar gyfer unigolion bregus. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir bellach, sy'n golygu bod costau Addysg Awyr Agored preswyl yn syrthio i raddau helaeth ar deulu'r plentyn dan sylw.

53. Ar sail yr asesiad cynnar hwn o gostau posibl, gallai cost flynyddol gweithredu'r Bil amrywio rhwng £9.9 miliwn a £13.6 miliwn. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ddarparu arhosiad preswyl wythnos o hyd o ddydd Llun i ddydd Gwener i 34,000 o blant y flwyddyn ar yr amcangyfrif isaf o gost, sef £290 yr arhosiad, neu'r amcangyfrif uchaf, sef £400 yr arhosiad. Gan weithio gyda rhanddeiliaid, bydd mwy o waith yn cael ei wneud wrth ddatblygu'r Bil i amcangyfrif costau'r cynigion penodol.

54. Byddaf yn gweithio gyda rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Bil i nodi unrhyw effeithiau neu gostau eilaidd pellach. Efallai y bydd rhywfaint o gostau ychwanegol ar gyfer monitro neu adrodd ar weithredu unrhyw ddeddfwriaeth newydd neu orfodi i hynny ddigwydd. Byddai'r costau hyn yn cael eu harchwilio ymhellach wrth ddatblygu'r Bil yn y dyfodol.

55. Mae unrhyw gostau ar gyfer y Bil hwn yn debygol o fod yn gostau ychwanegol yn y tymor byr i'r tymor canolig, ac mae'n bosibl y bydd arbedion costau mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill yn lliniaru'r rhain dros amser.

56. Yn y pen draw, diben y Bil yw cefnogi pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i gael mynediad at Addysg Awyr Agored breswyl a chael budd ohoni, i'w gwneud yn hawl i bawb yn hytrach na'n weithgaredd i gyfoethogi'r lleiafrif. Bydd symud hyn o fod yn allgyrsiol i fod yn rhan o'r cwricwlwm yn arwain at gostau cychwynnol, ond gellir cyfiawnhau'r costau hyn oherwydd y bydd Addysg Awyr Agored yn cyfrannu at wireddu canlyniadau pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

57. Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon ymhellach, gwneir gwaith manwl gyda rhanddeiliaid i bennu costau’r cynnig terfynol yn llawn. Byddaf hefyd yn gweithio gyda hwy i asesu, mesur a nodi cyfanswm yr arbedion o ran cost a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys arbedion cost posibl sy'n ymwneud ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl hirdymor yn ogystal â chanlyniadau addysgol.